# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 5 – Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch*

### Rhan 5 - Darpariaethau atodol

### Setliadau ac ymddiriedolaethau noeth

215. Mae paragraffau 27 i 30 yn darparu rheolau ynghylch cymhwyso'r rheolau sy'n ymwneud â thrafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch mewn perthynas ag ymddiriedolaethau noeth ac ymddiriedolaethau sy'n setliadau at ddibenion y Ddeddf (i'r graddau eu bod yn rhoi'r hawl i'r buddiolwr feddiannu'r annedd am oes neu'n rhoi'r hawl iddo i'r incwm a enillir). Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae buddiolwr yr ymddiriedolaeth noeth, neu'r setliad, i'w drin fel y prynwr, neu fel petai'n berchen ar fuddiant a ddelir yn yr annedd at ddibenion pennu a yw'r rheolau trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch yn gymwys i bryniant arall.

216. Mae paragraff 29 yn egluro y bydd trosglwyddo buddiannau llesiannol (er enghraifft, cyfrannau anranedig) sy'n codi o dan ymddiriedolaeth mewn eiddo preswyl yn cael ei drin yn yr un ffordd â throsglwyddo prif fuddiant pan y tybiwyd bod gwerthwr y buddiant llesiannol, yn union cyn y trafodiad, yn berchen ar y prif fuddiant yn yr annedd, ac y tybir bod y prynwr yn berchen ar y prif fuddiant yn union ar ôl y trafodiad.

217. Pan fo plentyn (sef plentyn o dan 18 oed) i'w drin fel y prynwr, neu ddeiliad buddiant, o ganlyniad i reolau'r ymddiriedolaeth yn y Ddeddf hon, mae paragraff 30 yn darparu mai'r rhiant (ac unrhyw briod neu bartner sifil i'r rhiant oni bai nad ydynt yn cyd-fyw) sydd i'w drin fel y prynwr neu ddeiliad y buddiant.

218. Mae paragraff 30(4) yn datgymhwyso effaith paragraff 30(2) mewn amgylchiadau pan fo buddiant plentyn analluog yn cael ei gaffael, ei ddal ar ymddiriedolaeth, neu ei waredu gan ddirprwy a benodir o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (neu berson sy'n gweithredu mewn swyddogaeth gyfatebol y tu allan i Gymru a Lloegr).

219. Mae paragraff 31 yn darparu rheolau mewn perthynas â setliadau pan na fo gan fuddiolwyr y setliad hawl i feddiannu'r annedd am oes nac i'r incwm a enillir mewn perthynas â'r annedd neu'r anheddau. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'r ymddiriedolwr i'w drethu neu'r ymddiriedolwyr i'w trethu o dan yr un rheolau â'r rhai sy'n berthnasol i brynwyr nad ydynt yn unigolion.